

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos lau, Gorffennaf 5ed, 2018 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Tegid Jones; Trefor Wyn Jones; Gareth O Davies; Naomi Jones; Sion Aled Jones; Ceri Jones; William Ifor Hughes; Marian Evans; Sian Angharad Parry a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Aled Davies; Angela Williams a Thomas Prys Jones.

2. Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fehefin 7fed, 2018 gydag un newid, rhif 18 ar y rhaglen waith, taliad i Gyngor Gwynedd, taliad BACS wnaethpwyd yn hytrach na thaliad siec. Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amodau Gwaith gynhaliwyd ar Fehefin 19eg, 2018.

3. Cadarnhawyd argymhelliad y Panel Cyfweld yngyhyllch penodi Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor, gyfarfu nos Lun, Gorffennaf 2il, 2018 yn Festri Capel Pencaenewydd. Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd y Cyngor o Hydref 1af, 2018 ymlaen fydd Mrs Bethan Parry Jones, Derwen Gam, Chwilog. Penderfynwyd estyn gwahoddiad iddi ddod i gyfarfod mis Medi'r Cyngor. Penderfynwyd hefyd brynu gliniadur ar gyfer gwaith y Cyngor, hyn i'w drafod yng nghyfarfod mis Medi. Diolchwyd i'r panel penodi am eu gwaith.

4. Arwyddwyd cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.

5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

6. Datgan buddiant personol. Datganodd y Cynghorwyr Marian Evans ac Aled Lloyd Evans fuddiant personol yn rhif 8.3 ar y rhaglen waith, cais cynllunio Rhif: C18/0249/41/MG – Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ preswyl i gynnwys 5 uned fforddiadwy a ganiatawyd yn amlinellol o dan C14/0061/41/AM; Madryn Arms, Chwilog. Cynlluniau diwygiedig am resymau personol.

7. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, bin baw cŵn ger Pont y Rheilffordd yn Afonwen. Penderfynwyd derbyn y bydd y bin baw ci yn ei lle yn fuan.

2. Adran Amgylchedd; Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Gwasanaethau bws o Glandwyfach i Grietieth drwy Rhoslan. Penderfynwyd derbyn.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

Gohebiaeth oddi wrth Cymdeithas Cludiant Cymunedol. Penderfynwyd gofyn am fwy o wybodaeth ac o bosib trefnu iddynt ddod i gyfarfod y Cyngor.

8. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif: C18/0442/41/LL – Codi modurdy; Bont Fechan Cottage, Llanystumdwy. Penderfynwyd cefnogi.

2. Cais Rhif: C18/0486/41/LL – Codi estyniad unllawr ar gefn ynghyd â chreu teras allanol; Cefn y Gader, Llanystumdwy. Cefnogwyd.

3. Cais Rhif: C18/0249/41/MG – Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ preswyl i gynnwys 5 uned fforddiadwy a ganiatawyd yn amlinellol o dan C14/0061/41/AM; Madryn Arms, Chwilog. Cynlluniau diwygiedig. Ymneilltuodd y Cynghorwyr Marian Evans ac Aled Lloyd Evans. Dim gwrthwynebiad oedd penderfyniad y Cyngor.

4. Cais Rhif: C18/0548/41/LL – Codi estyniad unllawr ar ochr eiddo; Ty'n Lon, Rhyd y Benllig, Rhoslan. Dim gwrthwynebiad.

9. Yr Arolygiaeth Cynllunio; penderfyniad ar yr Apêl, Tir ym Mro Sion Wyn, Chwilog. Caniatwyd yr apêl. Gofynnwyd am gofnod i fynegi siomedigaeth y Cyngor yma na chymerwyd unrhyw sylw o deimladau lleol.

10. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Pont Llanystumdwy. Mae pryder am gyflwr y bont a'r holl fuddleia sydd yn tyfu ar y waliau. Penderfynwyd cysylltu gydag adran berthnasol Cyngor Gwynedd.

Rhoslan

Gwelediad dros Bont Rhyd y Benllig. Penderfynwyd aros am ymateb i'r llythyr anfonwyd i'r Cyngor Sir ym mis Mehefin.

Chwilog

Bin Baw Ci ar y Lôn Goed.

Daeth cais i gael bin baw ci rhwng Llwyn Annas a Chefn Coed. Penderfynwyd trafod gyda Chyngor Gwynedd a chysylltu nôl gyda'r rhai wnaeth y cais.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Materion Ariannol

11. Lwfansau Cynghorwyr am y flwyddyn Ebrill 2018 ymlaen. Cafodd y Cynghorwyr oedd yn bresennol gyfle i lenwi, arwyddo a dyddio ffurflen i ddweud a ydynt am dderbyn y lwfans ai peidio. Doedd neb am ei hawlio.

12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Fel sy'n arferol rhoddwyd adroddiad lawn yn nodi yn union beth ydi'r sefyllfa ariannol yn cael ei gefnogi gan adroddiadau banc cyfredol. Aeth siec rhif 100981, taliad o £2,000- at gynnal gwasanaeth toiled cyhoeddus Llanystumdwy ar goll yn y post, fe'i canslwyd ac fe dalwyd yr anfoneb drwy daliad BACS (gweler cofnodion cyfarfod mis Mehefin, rhif 18. Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Derbyniwyd yr adroddiad.

13. Derbyn ad daliad TAW £271.55c. Derbyniwyd.

14. Derbyn pris am chwistrellu canclwm siapaneaidd a thorri balsam ar dir y Cyngor ger Pont Llanystumdwy £160-. Penderfynwyd derbyn y pris gan Mr Richard Hubbard, Llannor; bydd y balsam yn cael ei dorri, bydd y canclwm yn cael ei chwistrellu.

15. Anfonebau angen eu talu:

- a. Atkins Groundworks Ltd.; barbio llwybr cyhoeddus Bont Fechan, toriad cyntaf £174- yn cynnwys TAW, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.
- b. Y Ffynnon, Papur Bro Eifionydd; hysbyseb sengl am swydd Clerc yn rhifyn mis Mai 2018, £6-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.
- c. Cyllid a Thollau EM, treth ar enillion y Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2018; £230- taliad siec rhif 100982. Penderfynwyd ei dalu.
- ch. Cyflog chwarter y Clerc, Ebrill/Mai/Mehefin 2018, i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM;

Cyflog sylfaenol gross; 30 awr x 3 mis x £10.953c = £985.77c

Oriau ychwanegol, 5 awr x 3 mis x £10.953c = 164.30c

Cyfanswm = £1,150.07c

Cyllid a Thollau EM; £1,150- x 20% = £230-; cyflog net = £920-, taliad siec rhif 100983. Penderfynwyd ei dalu.

d. Costau'r Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2018; £288.84c; taliad siec rhif 100984. rhif. Penderfynwyd ei dalu.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

dd. Mr Clifford Hughes, dau doriad Cae Chwarae Llangybi x £96- = £192-

- + Llwybr Afonwen, toriad cyntaf £108- + Llwybr Garn Bentyrch £108-
Cyfanswm =£408-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.
- e. Mr D E Williams, Llithfaen am y gwaith symud polyn bws i'r safle newydd yn
Llanystumdwy fel ar y cynllun, £1,500- + TAW = £1,800-; taliad BACS.
Penderfynwyd ei dalu.
16. Cynhadledd Cymru SLCC yn Llandudno ar ddydd Mercher Medi 5ed,2018.
Penderfynwyd gofyn i'r Clerc a'r darpar Clerc fynd i'r gynhadledd yma.
17. Caniatâd i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl
ymgyngori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Rhoddwyd caniatâd.
18. Caniatâd i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd
Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Rhoddwyd
caniatâd.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk